Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**







# Fframwaith cyflog a dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

**Wedi ei ddatblygu gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol**

Newid Cadarnhaol mewn Gofal Cymdeithasol
Positive Change in Social Care

**Llywodraeth Cymru**
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
**Welsh Government**
National Office for Care and Support

gofalcymdeithasol.cymru

# Cynnwys

**Fframwaith cyflog a dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru . . . . . . . 3**

Ar gyfer pwy mae'r fframwaith? . . . . 4

Amcanion y fframwaith . . . . 5

Beth y gallai'r fframwaith ei olygu i unigolion a gweithwyr . . . . 5

Egwyddorion y fframwaith . . . . 6

Ar ôl i'r fframwaith gael ei weithredu . . . . 7

Nodweddion y fframwaith . . . . 7

**Y fframwaith . . . . 8**

Band swydd A . . . . 9

Band swydd B . . . . 11

Band swydd C . . . . 13

Band swydd D . . . . 16

Band swydd E . . . . 19

**Gwerthoedd . . . . 22**

# Fframwaith cyflog a dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru

## Wedi ei ddatblygu gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol

Dyma ddrafft cychwynnol o fframwaith cyflog a dilyniant ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n nodi cyfres o fandiau ar gyfer rolau gwahanol swyddi ac mae'n cynnwys y sgiliau, gwerthoedd, gwybodaeth, dealltwriaeth, a thasgau nodweddiadol ar gyfer pob un.

Nid yw'r drafft hwn yn cynnwys graddfeydd cyflog disgwyliedig eto, ond mae man cychwyn yn cael ei gynnig a bydd graddfeydd llawn yn dilyn.



## Ar gyfer pwy mae'r fframwaith?

Mae hwn yn fframwaith wirfoddol ar gyfer gweithwyr sy'n darparu gofal uniongyrchol a'u rheolwyr. Nid ydyw'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol ar hyn o bryd, ond rydyn ni eisiau ei ymestyn i gynnwys pawb sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol. Rydyn ni hefyd yn gobeithio y bydd yn cynnwys pobl sy'n darparu gofal drwy fframweithiau proffesiynol eraill fel nyrsio a gwaith cymdeithasol.

**Cefndir**

Datblygwyd y fframwaith hwn gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2020 yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Gwaith Teg Cymru.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn grŵp partneriaeth cymdeithasol sy'n cynnwys cyflogwyr, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill. Ei hamcan yw gwella trefniadau gweithio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, ac yn gallu gwneud cynnydd mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle y mae hawliau'n cael eu parchu.

**Cyflog mewn gofal cymdeithasol**

Rydyn ni'n cydnabod bod cyflog yn rhan hanfodol o fodel gweithlu cynaliadwy a theg, a bydd gwaith i fireinio lefelau cyflog ar draws pob rôl yn parhau wrth i'r fframwaith ddatblygu. Mae ymchwil ar gyflogau gofal cymdeithasol yn digwydd ar hyn o bryd, a fydd yn arwain y cam nesaf o sefydlu graddfeydd cyflog dangosol ar gyfer y lefelau a nodir yn y fframwaith hwn.

Fel cam cyntaf, mae'r fforwm wedi cytuno y dylai lefelau cyflog ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ddechrau o safle cyflog sy'n cyd-fynd â **Band 3 yr Agenda ar gyfer Newid – Pwynt Cam Uchaf**. Mae hwn yn gam bwriadol y tu hwnt i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae'n adlewyrchu cymhlethdod cynyddol rolau gofal cymdeithasol. Mae'r fforwm yn gweld cyd-fynd â chyflog â Band 3 fel cam hanfodol i hyrwyddo tegwch, cydraddoldeb a chysondeb ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae aelodau'r fforwm yn cydnabod y bydd cyflawni hyn yn genedlaethol yn gofyn am gefnogaeth a chyllid priodol i ddarparwyr. Wrth i'r fframwaith esblygu, bydd yr elfen gyflog yn parhau i gael ei datblygu a'i chryfhau.

**Adnoddau**

Y gobaith yw y bydd y fframwaith yn gam cyntaf mewn amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi'r sector. Darperir rhai enghreifftiau isod, ac rydyn ni'n croesawu unrhyw awgrymiadau neu sylwadau:

- **pecynnau cymorth recriwtio a dewis** i sicrhau bod gan y rheini sy'n ymuno â'r gweithlu ac yn gwneud cynnydd drwyddo y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer eu rolau
- **rhaglen dysgu a datblygu gynhwysfawr** sydd wedi'i chysylltu â phob lefel
- **pecyn cymorth rheoli perfformiad** i gefnogi sgyrsiau un i un a sgyrsiau datblygu
- **dulliau ar gyfer cynllunio olyniaeth a rheoli'r gweithlu** i helpu i reoli a chynllunio adnoddau ac annog dilyniant
- **pecyn cymorth gwobrwyo a chydnabod** a ddyluniwyd i ysgogi unigolion a chadw talent.

## Amcanion y fframwaith



Rydyn ni wedi dylunio'r fframwaith hwn i gyflawni uchelgeisiau ymrwymiad gwaith teg Cymru a strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn anelu at:

- darparu fframwaith wedi'i symleiddio ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr
- gwella recriwtio a chadw mewn gofal cymdeithasol
- darparu llwybr dilyniant clir i'r rheini sy'n ystyried ymuno â'r sector, neu sy'n gweithio ynddo eisoes
- cefnogi datblygiad y gweithlu drwy wella sgiliau a gwybodaeth yn barhaus
- disgrifio a safoni ymddygiad cadarnhaol gweithwyr gofal cymdeithasol
- darparu proses deg a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog ar y cyd ac yn unigol (ar y cam hwn mewn sefydliadau unigol).

**Nid yw hwn yn fframwaith statig. Byddwn ni'n ei addasu yn unol â datblygiadau.**

## Beth y gallai'r fframwaith ei olygu i unigolion a gweithwyr



**Bydd unigolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a'u teuluoedd yn gallu:**

- deall rolau'r rheini sy'n darparu eu gofal
- adnabod a deall y sgiliau sydd eu hangen
- cael llais ynghylch rôl bresennol gweithwyr gofal cymdeithasol a'u rôl yn y dyfodol.

**Bydd cyflogwyr gofal cymdeithasol yn gallu:**

- deall y gwerthoedd, priodoleddau, sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, cymwysterau a dysgu allweddol sydd eu hangen o fewn pob band gwaith gofal cymdeithasol
- ei ddefnyddio i ddatblygu dulliau ar gyfer recriwtio
- rheoli perfformiad a thalent, cynllunio olyniant, cyflog a chyllidebu.

**Bydd rheolwyr gofal cymdeithasol yn gallu ei ddefnyddio i:**

- cynnal sgyrsiau ag aelodau'r tîm am eu sgiliau a'u gwerthoedd craidd
- cefnogi a datblygu sgiliau eu timau
- cefnogi aelodau'r tîm i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd
- nodi'r sgiliau craidd sydd eu hangen arnyn nhw yn eu rolau eu hunain i arwain a rheoli pobl
- gael gwybodaeth am gymwysterau a dysgu a'r gofynion ar gyfer cofrestriad proffesiynol drwy Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn:**

- ymwybodol o'r sgiliau craidd sydd eu hangen i berfformio eu rolau'n dda
- meddu ar fanylion y cymwysterau a'r dysgu angenrheidiol
- meddu ar opsiynau gyrfaol ar gyfer eu dilyniant naill ai'n uniongyrchol drwy'r system gofal cymdeithasol neu lwybrau eraill fel gwaith cymdeithasol neu ofal iechyd.

**Os yn defnyddio taliadau uniongyrchol, bydd y fframwaith yn:**

- darparu canllawiau ynghylch sgiliau a gwerthoedd cynorthwywyr personol posibl
- bydd comisiynwyr gwasanaethau yn gallu:
    - cymharu gofynion y gweithlu a goblygiadau cyllidebau ar gyfer darparwyr posibl. Bydd hyn yn amodol ar ymarfer ymgysylltu ar wahân yn y dyfodol
    - darparu arweiniad am gofrestru a gofynion cymwysterau ar gyfer gweithwyr a sefydliadau
    - ei ddefnyddio fel dull ar gyfer deialog ac asesu drwy'r broses gaffael.

## Egwyddorion y fframwaith



Mae'r fframwaith yn cwmpasu gwaith gofal cymdeithasol sy'n cefnogi oedolion neu blant a phobl ifanc. Bydd pob band swydd yn cynrychioli amrywiaeth eithaf eang o rolau mewn gofal cymdeithasol. Bydd y bandiau swyddi yn ystyried y cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol presennol yng Nghymru ac yn amlinellu'r gwerthoedd, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth graidd sydd eu hangen.

Darperir y tasgau a'r rolau nodweddiadol ar gyfer pob band swydd hefyd. Dyma'r hyn a olygwn gan y termau hyn oll:

- **Gwerthoedd a phriodoleddau:** y gwerthoedd a'r priodoleddau y mae'n rhaid i unigolion eu harddangos er mwyn perfformio'n effeithiol yn y gwaith
- **Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth:** y sgiliau sydd eu hangen i wneud y rôl yn dda. Gellir datblygu'r rhain yn y swydd neu o ganlyniad i ennill cymwysterau neu ddysgu ffurfiol
- **Rolauswyddi:** mae'r rhain yn enghreifftiau o deitlau swyddi ym mhob band swydd gyda rhagor o fanylion ar gael yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

Wrth i ni ddatblygu'r fframwaith ymhellach, byddwn ni'n cynnwys gwybodaeth am ystodau a disgwyliadau cyflog. Byddwn ni hefyd yn cynnwys disgwyliadau o'r telerau ac amodau cyflogaeth, i roi arweiniad i gyflogwyr.



## Ar ôl i'r fframwaith gael ei weithredu

Pan mae'r fframwaith wedi ei ddatblygu'n llawn, bydd yn cynnwys adnoddau pellach a phecynnau cymorth ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol. Gallai'r rhain gynnwys:

- pecynnau recriwtio a dewis i sicrhau bod y rheini sy'n ymuno â'r gweithlu ac yn gwneud cynnydd drwyddo'n meddu ar y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer eu rolau
- rhaglen dysgu a datblygu gynhwysfawr sy'n gysylltiedig â phob lefel
- pecyn cymorth rheoli perfformiad i gefnogi sgyrsiau un-i-un a thrafodaethau datblygu
- dulliau cynllunio olyniant a rheoli'r gweithlu i helpu i reoli a chynllunio adnoddau ac annog dilyniant
- pecyn gwobrwyo a chydnabod a ddyluniwyd i gymell unigolion a chadw talent.



## Nodweddion y fframwaith

Mae cymwysterau drwy brentisiaethau ffurfiol yn cael eu hariannu ar hyn o bryd drwy'r fframwaith ar gyfer pob band swydd, er nad oes cyfeiriad penodol atyn nhw yn y fframwaith.

Nid yw'r cymwysterau a nodir yn rhestr gynhwysfawr a gall eraill gael eu derbyn. Mae manylion llawn yr holl gymwysterau ar gyfer rolau swyddi wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Cymwysterau ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dyluniwyd y fframwaith i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rolau cofrestredig ac anghofrestredig.

- Ar gyfer rhai rolau - yn arbennig gyda phlant a phobl ifanc - bydd gofynion cyflogaeth ychwanegol.
- Ar gyfer rolau cofrestredig, mae cyflawni'r cymwysterau'n ofyniad o'r rôl.
- Ar gyfer rolau anghofrestredig, argymhellir cymwysterau.
- Ar gyfer yr holl rolau yn y sector, mae Fframwaith sefydlu Cymru gyfan yn ofyniad craidd.

# Y FFRAMWAITH

## Mae bandiau A i D ar gyfer rolau gweithiwr gofal cymdeithasol
## Mae band E ar gyfer rolau rheolwr gofal cymdeithasol

### Band swydd A

Gweithiwr sy'n newydd i'r sector ac wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth wrth ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

### Band swydd B

Gweithiwr sydd wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i unigolyn.

### Band swydd C

Gweithiwr sydd wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth, weithiau ar lefel arbenigedd uwch, yn uniongyrchol i unigolyn.

### Band swydd D

Gweithiwr gofal sydd wedi'i gyflogi fel dirprwy reolwr, arweinydd tîm, ymarferydd arweiniol sy'n goruchwylio meysydd arbenigol o ofachymorth neu eiriolaeth. Mae'n bosibl bod ganddyn nhw rôl hefyd yn asesu anghenion gofal a chymorth.

### Band swydd E


Gweithiwr sy'n rheoli gwasanaeth ac sy'n gyfrifol am reolaeth proffesiynol cyffredinol darpariaeth, goruchwyliaeth, a sicrwydd ansawdd uniongyrchol y gofal a'r cymorth a ddarperir.

# BAND SWYDD A



## Pwy?

Gweithiwr sy'n newydd i'r sector ac wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth wrth ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.



## Rolau swyddi nodweddiadol

Gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau oedolion neu blant a phobl ifanc.



## Gofynion

Rhaid i weithwyr swyddi band A mewn **gwasanaethau rheoledig**:

- cwblhau'r Llwybr asesu cyflogwyr a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- cwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- cofrestru ar gyfer y cymhwyster gofynnol ar gyfer y band swydd perthnasol.

Dylai gweithwyr band swydd A **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig**:

- cwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- cofrestru ar gyfer y cymhwyster a argymhellir ar gyfer y band swydd perthnasol.



## Cymwysterau

Cyfeiriwch at Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

# BAND SWYDD A



## Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn datblygu dealltwriaeth a sgiliau mewn perthynas â:

- y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- sut i weithio mewn ffordd sy'n ymwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn mewn ymarfer bob dydd
- sut i hyrwyddo a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- sut i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a'u haddasu
- pwysigrwydd y Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru i'r rheini y maent yn eu cefnogi
- sut y gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau'r gweithiwr effeithio ar eu hagwedd a'u hymddygiad, a sut y gall hyn effeithio ar eraill
- sut i hyrwyddo a chefnogi diogelwch unigolion.

Mae'r pwyslais ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ym mand swydd A ar **ddeall ymarfer** a **datblygu sgiliau** mewn perthynas â'u rôl.

Darllenwch y Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a ddisgwylir.


Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau dysgu a datblygu eraill sy'n benodol i'r gwasanaeth hefyd, er enghraifft symud a thrin.

# BAND SWYDD B



## Pwy?

Gweithiwr sydd wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth yn uniongyrchol i unigolyn.



## Rolau swyddi nodweddiadol

Gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau oedolion.



## Gofynion

Dylai pob gweithiwr band swydd B gwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Rhaid i weithwyr band swydd B sydd mewn **gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymhwyster gofynnol:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

Dylai gweithwyr band swydd B **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymhwyster gofynnol:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

# BAND SWYDD B



## Cymwysterau

Cyfeiriwch at Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.



## Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth

**Mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn deall ac yn gallu:**

- gweithredu'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- gweithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- gweithio mewn ffyrdd sy'n ymwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn
- cefnogi a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a'u haddasu
- cefnogi'r Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru
- cydnabod sut y gall eu credoau, gwerthoedd a phrofiadau effeithio ar eu hagwedd a'u hymddygiad, a sut y gall hyn effeithio ar eraill
- cefnogi diogelwch unigolion
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl
- myfyrio ar ymarfer i wella'n barhaus
- hyrwyddo ymarfer gwrth-wahaniaethol.

Mae'r pwyslais ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ym mand swydd B ar **gefnogi** mewn modd ymarferol anghenion unigolion ac eraill drwy gyfrannu at gefnogi cynlluniau personol unigolion.

Gweler cymwysterau Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer i gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a ddisgwylir.

Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau dysgu a datblygu eraill sy'n benodol i'r gwasanaeth hefyd, er enghraifft symud a thrin.


# BAND SWYDD C



## Pwy?

Gweithiwr sydd wedi'i gyflogi i ddarparu gofal a chymorth, weithiau ar lefel arbenigedd uwch, yn uniongyrchol i unigolyn.

Bydd ganddyn nhw gyfrifoldeb hefyd o bosibl dros oruchwylio gweithwyr a goruchwylio a monitro'r gwaith o weithredu cynlluniau gofal.



## Rolau swyddi nodweddiadol

Gweithiwr gofal cymdeithasol uwch neu arweinydd tîm mewn gwasanaethau oedolion neu blant a phobl ifanc.



## Gofynion

Dylai pob gweithiwr band swydd C gwblhau'r Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

**Gwasanaethau oedolion**

Rhaid i weithwyr band swydd C **sydd mewn gwasanaethau rheoledig** fodloni'r gofynion cofrestru ar gyfer y rôl a dylent feddu ar y cymhwyster a argymhellir:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

Dylai gweithwyr band swydd C **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymhwyster a argymhellir:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

# BAND SWYDD C

## Gwasanaethau plant a phobl ifanc

Rhaid i weithwyr band swydd C **sydd mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymwysterau gofynnol:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

Dylai gweithwyr band swydd C **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymhwyster gofynnol:

- Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

**a**

- Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

**neu**

- Cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

## Cymwysterau

Cyfeiriwch at Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

# BAND SWYDD C



## Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth

**Mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn deall ac yn gallu:**

- gweithredu'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- gweithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn mewn ymarfer bob dydd
- hyrwyddo a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- hyrwyddo amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a'u haddasu
- hyrwyddo'r Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru
- cydnabod sut y gall eu credoau, gwerthoedd a phrofiadau effeithio ar eu hymagwedd a'u hymddygiad, a sut y gall hyn effeithio ar eraill
- hyrwyddo diogelwch unigolion
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl
- bod yn ymwybodol o bolisïau allweddol o fewn y sector a deall sut y gall y rhain effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o bobl broffesiynol
- gweithredu amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- myfyrio ar ymarfer i wella'n barhaus
- hyrwyddo ymarfer gwrth-wahaniaethol.

Y pwyslais ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ym mand swydd C yw **hyrwyddo** mewn ffordd ymarferol anghenion unigolion ac eraill fel llunio cynlluniau ystyrlon ar y cyd sy'n hyrwyddo cyfranogiad ac ymreolaeth.

Gallai'r band hwn gynnwys goruchwylio eraill hefyd.

Gweler cymwysterau Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (oedolion neu blant a phobl ifanc) i gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a ddisgwylir.

Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau dysgu a datblygu eraill sy'n benodol i'r gwasanaeth hefyd, er enghraifft symud a thrin.

# BAND SWYDD D

## Pwy?

Gweithiwr gofal sydd wedi'i gyflogi fel

- dirprwy reolwr
- arweinydd tîm, neu
- ymarferydd arweiniol sy'n goruchwylio meysydd arbenigol o ofal a chymorth neu eiriolaeth.

Mae'n bosibl bod ganddyn nhw rôl hefyd yn asesu anghenion gofal a chymorth.

## Rolau swyddi nodweddiadol

- Ymarferydd arweiniol, arweinwyr tîm a dirprwy reolwyr mewn gwasanaethau oedolion neu blant a phobl ifanc
- Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn tîm gwaith cymdeithasol
- Eiriolwr Annibynnol
- Gweithiwr / Cydgysylltydd Lleoli Oedolion

## Gofynion

Dylai pob gweithiwr band swydd D gwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Rhaid i weithwyr band swydd D **sydd mewn gwasanaethau rheoledig** fodloni'r gofynion cofrestru sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl a dylent feddu ar un o'r cymwysterau canlynol a argymhellir:

- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## neu

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru

# BAND SWYDD D

## Gofynion (parhad)

Dylai gweithwyr band swydd D **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar un o'r cymwysterau canlynol a argymhellir:

- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol
- Lefel 4 Lleoli Oedolion / Cysylltu Bywydau
- Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Cymwysterau

Cyfeiriwch at Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

# BAND SWYDD D



## Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth

**Mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn deall ac yn gallu:**

- gweithredu'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a chefnogi eraill i weithio yn unol â'r Cod
- gweithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau perthnasol eraill, a chefnogi eraill i weithio yn unol â nhw
- arwain a hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn mewn ymarfer bob dydd
- arwain a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ymarfer gwrth-wahaniaethol
- arwain a hyrwyddo amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a'u haddasu
- arwain a hyrwyddo'r Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru
- arwain a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n cydnabod credoau, gwerthoedd a phrofiadau wrth ddeall eu dylanwad ar ymagweddau ac ymddygiad, a'u heffaith ar eraill
- arwain a hyrwyddo diogelwch unigolion
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol perthnasol
- gweithredu polisïau allweddol o fewn y sector a chefnogi eraill i'w defnyddio, a monitro sut y mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau
- cefnogi eraill i weithio mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- arwain gwaith mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- meddwl mewn ffordd feirniadol a defnyddio dulliau datrys problemau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau
- myfyrio ar ymarfer i wella'n barhaus
- cefnogi eraill i fyfyrio ar eu hymarfer i wella'n barhaus.

Mae'r pwyslais ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn swydd band D ar **arwain a hyrwyddo** ymarfer mewn rolau gofal a chymorth arbenigol neu oruchwylio.

Gweler y gyfres o gymwysterau Lefel 4 a restrir ym mand swydd D i weld rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a ddisgwylir.


Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau dysgu a datblygu eraill sy'n benodol i'r gwasanaeth/neu rôl hefyd, er enghraifft hyfforddiant arbenigol.

# BAND SWYDD E



## Pwy?

Gweithiwr sy'n rheoli gwasanaeth ac sy'n gyfrifol am reolaeth proffesiynol cyffredinol darpariaeth, goruchwyliaeth, a sicrwydd ansawdd uniongyrchol y gofal a'r cymorth a ddarperir.



## Rolau swyddi nodweddiadol

Rheolwyr Gofal Cymdeithasol mewn gwasanaethau oedolion neu blant a phobl ifanc.



## Gofynion

Dylai pob gweithiwr band swydd E gwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol.

Rhaid i weithwyr band swydd E sydd mewn **gwasanaethau rheoledig** fodloni'r gofynion cofrestru a meddu ar y cymhwyster gofynnol:

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**a**

- Lefel 5 Arweinyddiaeth a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylai gweithwyr band swydd E **nad ydynt mewn gwasanaethau rheoledig** feddu ar y cymhwyster a argymhellir:

- Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**a**

- Lefel 5 Arweinyddiaeth a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

**neu**

- cymhwyster cyfatebol a gydnabyddir yn Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

# BAND SWYDD E

## Cymwysterau

Cyfeiriwch at Fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol yn deall ac yn gallu:

- gweithredu'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a chefnogi eraill i weithio yn unol â'r Cod
- gweithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau perthnasol eraill, a chefnogi eraill i weithio yn unol â nhw
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/plentyn mewn ymarfer bob dydd
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant drwy ymarfer gwrth-wahaniaethol
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, a diwylliant a hunaniaeth Cymru
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n cydnabod credoau, gwerthoedd a phrofiadau wrth ddeall eu dylanwad ar ymagweddau ac ymddygiad, a'u heffaith ar eraill
- arwain a rheoli ymarfer sy'n hyrwyddo diogelu unigolion
- defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol perthnasol
- gweithredu polisïau allweddol o fewn y sector a chefnogi eraill i'w defnyddio a monitro sut y mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau
- arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o bobl broffesiynol

# BAND SWYDD E



- meddwl mewn ffordd feirniadol a defnyddio dulliau datrys problemau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau
- myfyrio ar effaith eich dulliau arwain a rheoli, a rhai unigolion eraill, i wella'n barhaus
- cefnogi eraill i fyfyrio ar eu hymarfer i wella'n barhaus
- arwain a rheoli iechyd, diogelwch a llesiant yn y gweithle
- arwain a rheoli ymarfer proffesiynol a pherfformiad tîm effeithiol
- arwain a rheoli gwella perfformiad, darpariaeth newydd a diwygiedig ac ansawdd gwasanaethau i ateb anghenion unigolyn, a gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol.

Mae'r pwyslais ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ym Mand swydd E ar **arwain** a **rheoli** gwasanaethau gofal a chymorth.

Gweler cymwysterau Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lefel 5 Arweinyddiaeth a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer i gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau a ddisgwylir.

Mae'n bosibl y bydd angen sgiliau dysgu a datblygu eraill sy'n benodol i'r gwasanaeth/neu rôl hefyd.

# GWERTHOEDD



Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol arddangos y gwerthoedd cyffredinol a ganlyn yn eu swydd o dydd i ddydd:

- empathi a thosturi
- brwdfrydedd ynghylch darparu gofal
- ymrwymiad i ddysgu a datblygu
- cynhwysol ac anfeirniadol - parchu a chydnabod hawliau, dymuniadau ac anghenion unigolion o ran sut maen nhw'n derbyn gofal a chymorth
- parchu a chydnabod unigolion sy'n dymuno derbyn gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg
- gweithio mewn ffordd wrth-wahaniaethol.



**Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn grŵp partneriaeth gymdeithasol deirochrog sydd wedi ymrwymo i ymgorffori gwaith teg a gwella telerau ac amodau i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Mae aelodau'r fforwm yn cynnwys Llywodraeth Cymru, undebau llafur, cyflogwyr a Gofal Cymdeithasol Cymru.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADSS Cymru
Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

GMB

Royal College of Nursing

Fforwm Gofal Cymru
Care Forum Wales

UNISON Cymru

CLlLC WLGA

Wales TUC Cymru

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw.

Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith i Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru, drwy'r cyfeiriad uchod.

**Fformatau eraill:**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu fformatau eraill.

© 2026 Gofal Cymdeithasol Cymru